

MYFYRDOD Y PENTECOST



Ond boed i ni gofio hefyd mai gwaith yw hwn sy'n gofyn am ddewrder. Ni allwn ragweld cyfeiriad y gwynt, na maint ei rym. Pan fydd yn chwythu, gall amharu ar y picnic a chreu anghyfleustra. Gall ddod â grym nerthol gan beri i'r holl bethau a wyddom ac a gredwn sy'n ddiogel o'n cwmpas gael eu hysgwyd.

Pan fydd hyn yn digwydd, mae gennym ddewis.

Gallwn gau'r drysau a'r ffenestri a rhwystro presenoldeb y gwynt fel na chawn ein cyffwrdd gan ei bresenoldeb.

Gallwn sefyll o hirbell a gwylio mewn rhyfeddod wrth iddo darfu ac amharu, trawsffurfio ac adnewyddu, ac yna clywed straeon gan bobl eraill am yr hyn a ddigwyddodd.

Neu gallwn fod yn agored a digysgod, drwy adael i'r gwynt wneud ei waith, rhoi'r gorau i reoli a chofleidio'i rym a'i weithgarwch.

Gweddi:

**Ysbryd Sanctaidd,
aflonydda ni,
cymhwysa ni,
arwain ni,
adfywia ni,
trawsffurfia ni,
adnewyddu ni
a dyro fywyd i ni, AMEN**

*Parchg Kath Miller
Hengoed Newydd*

Pan gyfarfu Iesu â Nicodemus, liw nos, bu'n sgwrsio ag ef am Ysbryd Duw: 'Mae'r gwynt yn chwythu lle y myn ac yr ydych yn clywed ei sŵn, ond ni wyddoch o ble y mae'n dod nac i ble y mae'n mynd. Felly y mae gyda phob un sy'n cael eu geni o'r Ysbryd'. Yn ddiweddarach, ar ddydd y Pentecost, wrth i'r disgyblion eistedd gyda'i gilydd, dywedir wrthym iddynt glywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu a'i fod wedi llenwi'r ystafell lle'r oeddent yn eistedd.

Dyna sy'n rhyfedd ynglŷn â gwynt...pan fydd pethau'n mynd yn rhy boeth, rydym yn croesawu ei bresenoldeb adfywiol. Ond i'r teulu sy'n ceisio cadw pethau yn eu lle ar flanced, wrth gael picnic, gall yr aflonyddwch greu llanast sy'n rhaid ei reoli.

Yn yr un modd, mae gyrwynt yn

medru creu syndod a rhyfeddod ymhlith y rhai sy'n ei weld o bellter diogel ond, pan gewch eich dal yn ei rym, efallai y bydd arswyd a newidiadau sylweddol yn digwydd i'ch amgylchedd.

Mae gan wynt y grym i adnewyddu ac aflonyddu.

Mae gwynt yn anrhagweladwy.

Mae gwynt yn anweledig, ond gwelir ei effeithiau lle bynnag y mae'n bresennol.


Y Pentecost hwn, rydym yn cofio fod Ysbryd Duw ar waith yn y byd hwn, yn trawsnewid ac yn adnewyddu, yn dyheu, yn galw ac yn galluogi bywyd newydd. Cofiw'n hefyd fod gennym ninnau ran i chwarae yn y gwaith prydferth a rhyfeddol hwn, gwaith sy'n dwyn iachâd ac iachawdwriaeth, wrth i ni gael ein hadnewyddu gan bresenoldeb yr Ysbryd.



**Derbyniwyd hyd yma:
£31,747.00**

Cynhadledd Flynyddol yr Adran Gymraeg 2021 o dan nawdd Cymanfa Gorllewin Morgannwg

Y Thema: 'Awr Duw yn Galw'



Yn anffodus bu'n rhaid gohirio Cyfarfodydd Blynnyddol yr Undeb y llynedd o ganlyniad i Cofid-19 ac er bod y sefyllfa wedi gwella'n raddol erbyn hyn, nid ydym yn rhagweld y bydd yn bosib i ni gynnal y cyfarfodydd eleni yn y modd arferol.

Rydym wedi colli'r cyfle i'ch gwahodd i'r Gymanfa ac yn enwedig i ardaloedd Treforys a Phontlliw. Mae'r misoedd diwethaf wedi'n gwneud ni yn fwy ymwybodol o'r posibilïadau rhithiol sydd ar gael ac felly fel Cymanfa rydym yn trefnu y bydd elfennau o'r Cyfarfodydd Blynnyddol yn dod atoch drwy gyfrwng Zoom.

Felly, yn dilyn ymgynghoriad gyda Swyddogion yr Undeb, ein dymuniad yw cynnal Oedfa'r Llywydd yng nghwmni cynulleidfa gyfyngedig yn Seion Newydd, Treforys ac yn yr un modd Oedfa'r Weinidogaeth yng Ngharmel, Pontlliw. Bydd yr

oedfaon yn cael eu recordio ar ddechrau mis Mehefin ac yna'n cael eu darlledu trwy gyfrwng Zoom, pan fydd croeso i'r holl gynadleddwyr ymuno.

Yn fras, mae'r trefniadau fel a ganlyn:

Dydd Llun, 21 Mehefin:
Cyfarfod Busnes am 10.30 yb.

Dydd Llun, 21 Mehefin:
Oedfa'r Llywydd am 7.00 yb.

Nos Fawrth, 22 Mehefin: Oedfa'r
Weinidogaeth am 7.00 yb.

Bydd mwy o fanylion mewn perthynas â threfniadau'r cyfarfodydd Zoom ar gael maes o law.

*Gyda phob bendith,
Aldyth Williams
(Ar ran Cymanfa Gorllewin
Morgannwg.)*

Momentwm 2021—Newid yr Awyrgylch

Eleni, nid ydym yn gofyn i chi fynychu'r gynhadledd Momentum, yn hytrach rydym yn gofyn i chi fod yn Fomentwm, ond gyda gwahaniaeth! Rydym am estyn gwahoddiad i bob Eglwys a Chapel Bedyddiedig i ymuno mewn ton genedlaethol o weddi.

Pryd mae hyn y digwydd? Bydd yn dechrau ar y Pentecost, Dydd Sul, 23 Mai, ac yn gorffen ar ddydd Sul, 27 Mehefin am 6.30yh gyda digwyddiad cenedlaethol a ddarlledir yn fyw dros y we.

Pam Sulgwyn? Yn union fel yr oedd yr Ysbryd Glân wedi nerthu'r disgyblion a'u hanfon allan i Jerwsalem, Samaria a hyd eithaf y ddaear, rydym yn rhagweld ein gweddi yn ymestyn fel ton ar draws Cymru.

I ble mae'r don o weddi yn mynd? Bydd yn dechrau yn Ilston, Gŵyr ac yn symud i orllewin a gogledd Cymru ac yna'n dychwelyd i Ilston drwy'r canolbarth a de-ddwyrain Cymru.

Pam Ilston? Am mai Ilston oedd man geni Bedyddwyr Cymru yn 1649, ac yn gychwyn ar daith sydd yn parhau heddiw – gyda chi!

Dyma'r amserlen:

Abertawe - Pantygwydr – 25ain Mai
Hwlfordd - Bethesda – 28ain Mai
Trecelyn ar Wy - Pentref – 3ydd Mehefin
Aberhonddu - Kensington – 6ed Mehefin
Bangor - Penrallt – 9fed Mehefin
Rhisga - Moriah – 10fed Mehefin
Griffithstown - Ebenezer – 16eg Mehefin
Casnewydd - Lliswerry – 19eg Mehefin
Pontypridd - Temple – 22ain Mehefin
Yr Eglwys Newydd - Bethel – 24ain Mehefin
Bryncethin - Nazareth – 26ain Mehefin

Mae gwybodaeth lawn ar sut y gallwch gymryd rhan wedi'u hanfon at berson cyswllt yr eglwys:

Neu ewch i

<http://www.buw.org.uk/the-wave-of-prayer-is-coming>

Dilynwch y Don ar Facebook wrth

hoffi: <https://www.facebook.com/baptistmomentum>



EGLWYSI AR Y RHENG FLAEN

Yn ystod cyfnod y pandemig Coronafirws bu eglwysi a chapeli Cymru ar y rheng flaen ac ni wynebodd eu harweinwyr erioed yn y can mlynedd ddiwethaf gymaint o her, meddai'r Parchg Dr Kang-San Tan, Cyfarwyddwr Cyffredinol BMS World Mission, mewn cyfarfod ar-lein o Gymanfa Bedyddwyr Gwent.

Bu nifer fawr o eglwysi'n cynorthwyo eu cymunedau lleol drwy sefydlu neu ymwneud â banciau bwyd, gwirfoddoli a helpu'r sawl oedd mewn angen, ond roedd gorchwyl mwy o lawer yn eu hwynebu, meddai.

"Mae angen i ni rannu ein hadnoddau gyda'r difreintiedig a'r tlawd gartref a thramor. Cawsom ein galw gan Dduw i fod yn halen a goleuni yn y byd cythryblus hwn a byddwn yn atebol i Dduw am ein gweithredoedd.

"Rhaid inni fynd yn ôl at yr Ysgrhythrau ac adnewyddu ein hymdeimlad o genhadaeth Duw-ganolog o ran darparu cymorth

ymarferol, emosiynol ac ysbrydol i bawb y down ar eu traws sydd mewn angen. Ond mae Duw wedi creu cyfleoedd newydd i ni yn ystod y dyddiau anodd hyn ac mae'n rhaid i ni afael ynddynt tra'n dibynnu, fel ymhob achos, ar Ei gryfder ef," ychwanegodd.

Dr Tan a'i wraig, Loun Ling Lee, oedd y siaradwyr gwadd yng nghyfarfod y Gwanwyn o'r Gymanfa a thema eu cyflwyniad oedd, "Cenhadaeth Amhosibl?" Dywedodd Loun, golygydd y *Lausanne Global Analysis*, sef cyhoeddiad cenhadaeth fyd-eang deufisod Mudiad Lausanne:

"Mae tueddiad peryglus i droi tuag at i mewn pan fyddwn mewn trwbl. Mae Duw am i ni helpu pobl y tu allan i furiau ein hadeiladau boed hynny yn y cyd-destun lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Nid dim ond pregethu'r efengyl sy'n rhaid ei wneud ond ei ddangos ym mywyd credinwyr ac eglwysi unigol. Y cwestiwn angenrheidiol yw: 'Sut allwn ni gynorthwyo i ddwyn iachâd i

fyd toredig?'"

Lansiwyd y llyfryn gweddi newydd, *Pray without Ceasing*, yn ystod y digwyddiad. Y Parchg Jonathan Forman, Eglwys Fedyddiedig Blaenau Gwent, Abertyleri a fu'n gyfrifol am ei lunio a bydd yn un o'r adnoddau a ddefnyddir gan eglwysi'r Gymanfa yn ystod y rhaglen weddi ddwy flynedd a fydd yn dechrau ym mis Mai.

Cymerwyd rhan hefyd gan Gadeirydd y Gymanfa, sef y Parchedig D Marc Owen, Eglwys Moriah, Rhisga; Tim Moody, Gweinidog Cynorthwyol Moriah a Llywydd y Gymanfa; Mrs Eryl Dykes, Eglwys Fedyddiedig Ebenezer, Abertyleri a'r Parchg Ddr Suzanne Roberts, Gweinidog Bedyddiedig wedi ymddeol a Chyn-Genhades sy'n mynychu Eglwys Fedyddiedig Tabernacl, Trecelyn.

Geoff Champion, Ysgrifennydd Cymanfa Bedyddwyr Gwent.

GWEFAN NEWYDD UBC

Facebook Twitter CENN@D Messenger

ENGLISH Search



Am danom ni - Newyddion a Digwyddiadau Eglwysi a Chymaunoedd - Arweinydd - Cenhadaeth - Diogel

HAFFAN • CENHADAETH CEFNOGOL • PLANT, IJENCTID A THEULUOEDD

Plant, Ieuenctid a Theuluoedd



Cyngor Ysgolion Sul

Ers blynyddoedd lawer, mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi gweithio yn agos gyda Chyngor Ysgolion Sul Cymru a sefydlwyd i hyrwyddo a chefnogi gwaith Ysgolion Sul ...

Read More

Ilyfforddiant Cenhadol - Forge

Ethos & Darganfod

Cenhadaeth yng Nghymru

Tim i Gymru

Noddi Gweithwyr

Grantiau Cenhadol

Adnoddau Cenhadol

Dydd Gwyl Dewi

Bocs Ofer

Plant, Ieuenctid a Theuluoedd

Cyngor Ysgolion Sul

SU Cymru

Llan Llanast

Cyflawnder Cymdeithasol

Pwyllgor Eglwys A Chyfrifoldeb Cymdeithasol

Datganiadau

Apeliadau

Apêl Timothy Richard -

OEDFA ILSTON

Byddwn yn cyhoeddi trefniadau Oedfa Ilston 2021 yn dilyn y Cyfarfodydd Blynnyddol. Mae'n bur debyg mai cyfarfod drwy gyfrwng Zoom fydd yr Oedfa eleni.

APÊL TIMOTHY RICHARD/BMS

Cyfanswm yr hyn a dderbyniwyd hyd at ddiwedd Ebrill 2021: £31,747.00

Mawr obeithiwn y bydd modd inni gyrraedd y targed o £40,000 erbyn y Cyfarfodydd Blynnyddol pan fydd yr Apêl yn cau. Os nad ydych wedi cyfrannu, gofynnwn yn garedig i chi anfon rhodd er mwyn cynorthwyo plant y ffoaduriaid yn Lebanon i dderbyn addysg. Gall eich cyfraniad wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau plant ifainc sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u mamwlad.

Anfonwch eich cyfraniadau i'r Swyddfa yn Y Llwyfan gyda sieciau yn daladwy i 'Undeb Bedyddwyr Cymru' gan nodi ei fod at yr apêl. Diolch!

RHIF FFÔN A CHYFEIRIAD E-BOST NEWYDD Y SWYDDFA:
Rhif Ffôn: 0345 222 1514; E-bost: post@ubc.cymru